# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**(SLC(3)-25-08)**

## SLC213

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

### O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i’r offeryn a ganlyn.

### Teitl: Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2008 ("Gorchymyn 2008”)

Daw’r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Rhagfyr 2008 ond mae’n effeithiol o 1 Ebrill 2008 ac mae’n gymwys o ran Cymru. Mae’r Gorchymyn hwn yn ailddeddfu Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach) (Cymru) 2006 ("Gorchymyn 2006”) gyda diwygiadau. Darparodd Gorchymyn 2006 ar gyfer cynllun rhyddhad ardrethi i fusnesau bach o ran Cymru yn sgil dod i rym adran 63 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003. Gwnaeth yr adran honno ddiwygiadau i adrannau 42A, 43 a 47 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Deddf 1988”).

Yn ychwanegol at ddrafftio diwygiadau mae’r Gorchymyn hwn yn gwneud y newidiadau sylweddol a ganlyn:-cynyddu trothwy uchaf gwerth ardrethol ar gyfer cael rhyddhad cyffredinol; darparu rhyddhad penodol ar gyfer mangre fanwerthu, darparwyr gofal plant ac undebau credyd; a darparu am i drethdalwyr sy’n gwneud cais am ryddhad roi hysbysiad i’r awdurdod bilio ond nid yw hyn yn gymwys i’r trethdalwyr hynny sy’n gwneud cais am ryddhad ar sail eu gwerth ardrethol yn unig. Mae’r ddarpariaeth hon hefyd yn gymwys mewn cysylltiad â swyddfeydd post a oedd yn gymwys o dan Orchymyn 2006.

Effaith gwneud Gorchymyn 2008 fydd cynyddu nifer y busnesau bach sy’n gymwys ar gyfer rhyddhad ardrethi, a darparu cymorth ychwanegol i sefydliadau manwerthu bach, sefydliadau gofal plant cofrestredig ac undebau credyd.

### Rheol Sefydlog 15.2

### Nodwyd y pwynt a ganlyn i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2:-

Mae Erthygl 1 yn effeithiol o 1 Ebrill 2008, gan mai hwn yw dyddiad dechrau’r flwyddyn ardrethu gyfredol. Nid yw’r ddeddfwriaeth alluogi yn gwneud darpariaeth benodol i ganiatáu effaith ôl-weithredol. Mae’r diwygiadau dan sylw yn trosglwyddo budd yn hytrach na gosod cyfrifoldeb, ac maent yn effeithiol yn ystod y flwyddyn dreth gyfredol. O dan yr amgylchiadau hynny caiff y mater ei nodi er gwybodaeth yn hytrach na fel beirniadaeth. (Rheol Sefydlog (iv)).

**Cynghorwyr cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**
**Hydref 2008**

Mae’r Llywodraeth yn cytuno nad yw’r Ddeddf alluogi yn gwneud darpariaeth benodol i ganiatáu effaith ôl-weithredol ac ymhellach y mae’n cytuno â barn y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth nad yw’r mater yn destun adroddiad ond er gwybodaeth yn hytrach fel beirniadaeth neu fel rhywbeth y mae angen ei gywiro.